# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Medi 2023

Amser: 09.30 - 12.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams,** Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE

(Tudalennau 1 - 4)

Dogfennau atodol:

- Llythyr gan Weinidog yr Economi at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE - 11 Medi 2023
  - Atodiad: Datganiad gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE

### 2.2 Strategaeth Ddiwylliannol i Gymru

(Tudalen 5)

Dogfennau atodol:

- Llythyr at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Diweddariad ar y Strategaeth Ddiwylliannol - 13 Medi 2023

**2.3 Ofcom: Cyfryngau'r Genedl**

(Tudalennau 6 - 47)

- Ofcom: Cyfryngau'r Genedl 2023

Dogfennau atodol:

- Ofcom: Adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2023 - 3 Awst 2023

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(09.30)

## 4 Sesiwn friffio Cyngor Celfyddydau Cymru ar yr adolygiad buddsoddi 2023

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 48 - 55)

- Maggie Russell, Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru
- Dafydd Rhys, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru

Dogfennau atodol:

- Cyngor Celfyddydau Cymru - Briff Adolygiad Buddsoddi

## 5 Sesiwn friffio Cyngor Celfyddydau Cymru ar adolygiad buddsoddi 2023: trafod y dystiolaeth

(10.30 - 10.45)

## Egwyl

(10.45 - 11.00)

## 6 Sesiwn friffio y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr

(11.00 - 12.00) (Tudalennau 56 - 65)

- Ruth Studley, Cyfarwyddwr, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Jen Woolford, Cyfarwyddwr, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dogfennau atodol:

- Cyflwyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Dyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr

## 7 Sesiwn friffio y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddyfodol ystadegau am y boblogaeth a mudo yng Nghymru a Lloegr: trafod y dystiolaeth

(12.00 - 12.15)

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00303/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

11 Medi 2023

Annwyl Huw

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, roeddwn am roi gwybod ichi fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 26 Mehefin. Nid oeddwn yn gallu rhoi rhybudd ymlaen llaw ar yr achlysur hwn gan fod y cyfarfod wedi cael ei alw ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd dilynol y DU a'r UE o Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a gynhaliwyd yn fuan wedyn ar 3 Gorffennaf, pan nad oeddwn yn bresennol.

Amlinellir crynodeb o'r trafodaethau mewn Datganiad Ysgrifenedig yr wyf wedi'i gyhoeddi i'r Aelodau heddiw. written statement

Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi'i drefnu ar gyfer 11 Medi, a fydd yn cael ei gadeirio gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Mick Antoniw, AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE** |
| **DYDDIAD** | **11 Medi 2023** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n rhoi gwybod i'r Aelodau fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 26 Mehefin. Nid oeddwn yn gallu rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfod gan ei fod wedi cael ei alw ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Roedd Angus Robertson ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd uwch swyddog o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon yn bresennol fel arsylwr.

Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd dilynol rhwng y DU a'r UE o Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf, pan nad oeddwn yn bresennol.

Fe wnes i'r prif bwyntiau canlynol yng nghyfarfod mis Mehefin, a gafodd eu nodi:

- dylid rhoi mwy o rybudd ar gyfer cyfarfodydd y grŵp Rhyngweinidogol hwn, yn unol â thelerau'r Adolygiad Rhynglywodraethol.
- roedd ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion rhoi Fframwaith Windsor ar waith yn parhau.
- y gobaith yw y bydd cynnydd gyda'r UE ar Fframwaith Windsor yn datrys materion allweddol fel cysylltiad y DU â Horizon Europe.
- o ran hawliau dinasyddion, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu ymgysylltiad cynharach, a mwy sylweddol, gan y Swyddfa Gartref.

Mabwysiadodd cyfarfod y Cyd-bwyllgor dilynol ddau benderfyniad ffurfiol ar fesurau glanweithiol a ffytoiechydol (bwydydd amaeth) a meddyginiaethau i roi Fframwaith Windsor ar waith. Mabwysiadodd benderfyniad hefyd i addasu agweddau ar gydlynu mecanweithiau nawdd cymdeithasol. Mae'r manylion wedi'u nodi yn y Datganiad ar y Cyd rhwng y DU a'r UE

yma: Joint statement on the Withdrawal Agreement Joint Committee meeting, 3 July 2023 (Saesneg yn Unig)

Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadaurhwng y DU a'r UE wedi'i drefnu ar gyfer 11 Medi, a fydd yn cael ei gadeirio gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Nid oes agenda ffurfiol wedi'i gosod eto, ond rwy'n disgwyl iddi gynnwys trafodaeth ar weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael, cyn cyfres o wahanol gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE a fydd yn cael eu trefnu ar gyfer gweddill 2023.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

13 Medi 2023

**Diweddariad ar y Strategaeth Ddiwylliannol**

Annwyl Dawn

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â datblygu'r Strategaeth Ddiwylliannol sydd ar y gweill. Mae datblygu Strategaeth Ddiwylliant i Gymru yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio ac fel y gwyddoch, mae o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor.

Yn eich datganiad ysgrifenedig diwethaf (dyddiedig 1 Mawrth 2023) nodwyd bod disgwyl i'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2023. A allwch chi roi amlinelliad i'r Pwyllgor o'u canfyddiadau cychwynnol? Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar am restr o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at y gwaith hwn.

Yn ogystal, a allwch chi roi gwybod pryd y mae disgwyl i waith y Grŵp Llywio ddod i ben a phryd y bydd y Strategaeth Ddiwylliannol ei hun yn cael ei chyhoeddi?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.3



# Cyfryngau'r Genedl

Cymru 2023



Cyhoeddwyd Awst 3 2023

# Cynnwys

## Adran

**Trosolwg** ..... **3**

Cyflwyniad ..... 3

Prif ganfyddiadau ..... 4

**Teledu a fideo** ..... **5**

Datblygiadau yn y farchnad ..... 5

Dyfeisiau a gwasanaethau teledu ..... 9

Tueddiadau gwylio ..... 11

Tueddiadau gwylio fideo ar-alw ..... 20

Ffynonellau newyddion ..... 23

Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru ..... 25

**Radio a sain** ..... **32**

Datblygiadau yn y farchnad ..... 32

Argaeledd a darpariaeth gwasanaethau radio ..... 33

Refeniw radio masnachol ..... 34

Gwrando ar y radio byw yng Nghymru ..... 35

Gwrando ar-lein yng Nghymru ..... 39

# Trosolwg

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* yn trin ac yn trafod y tueddiadau allweddol sydd wedi ymddangos yn y sector cyfryngau ac mae'n nodi sut wasanaeth gaiff cynulleidfaoedd Cymru. Rydym yn mabwysiadu safbwynt ar draws llwyfannau, gan gynnwys teledu a radio wedi'u darlledu, yn ogystal â darpariaeth ddigidol gan gynnwys fideo ar-lein a ffrydio sain.

Mae'r adroddiad yn darparu tueddiadau a dadansoddiadau ar sail nifer o setiau data, gan gynnwys data a gasglwyd yn uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw) yn ogystal ag ymchwil defnyddwyr Ofcom ei hun a data Barb a RAJAR (ar gyfer defnydd cynulleidfaoedd).

Yn ogystal â'r adroddiad hwn ar gyfer Cymru, ceir adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU gyfan, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae fersiwn o'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

## Prif ganfyddiadau

**Y gwasanaeth ffrydio mwyaf poblogaidd yng Nghymru oedd BBC iPlayer (73%)**

Dyna hefyd oedd yr un mwyaf poblogaidd yng Ngogledd Iwerddon (80%) ac yn y DU drwyddi draw (73%). Netflix oedd fwyaf poblogaidd yn Yr Alban (77%).





Dywedodd

**69%**

o'r rhai yng Nghymru a oedd wedi gwylio sianel PSB yn y 6 mis diwethaf eu bod yn **hapus yn gyffredinol gyda sianeli PSB**



**Amser a dreuliwyd yn gwylio fideo bob dydd**





**Y rhaglen a wyliwyd fwyaf yng Nghymru yn 2022**

Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru yn erbyn Ffrainc




Ar Amazon Music y **treuliwyd 24% o'r amser yn ffrydio cerddoriaeth** yng Nghymru

4 gwaith cymaint â'r cyfartaledd ar gyfer oedolion yn y DU




*Ffynonellau a ddefnyddiwyd: Arolwg Vod Ofcom 2023 (Oedolion/pobl ifanc 13+) Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022 Ofcom, Barb*

# Teledu a fideo

## Datblygiadau yn y farchnad

### Cyhoeddi'r Bil Cyfryngau Drafft

Cafodd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer moderneiddio deddfwriaeth darlledu eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2023. Mae'r Bil Cyfryngau drafft wedi cael ei groesawu gan y darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n ei ystyried yn hanfodol i roi'r gallu iddynt gystadlu â gwasanaethau ffrydio byd-eang. Prif gynnig y Bil drafft yw creu trefn amlygrwydd newydd, i sicrhau bod gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel BBC iPlayer, ITV, ac S4C Clic yn amlwg, ar gael ac yn hawdd cael gafael arnynt ar lwyfannau teledu cysylltiedig, gan gynnwys setiau teledu clyfar, blychau pen-set a ffyn ffrydio. Bydd rhwymedigaethau gorfodol newydd hefyd yn gwarantu bod gwasanaethau S4C ar gael i gynulleidfaoedd ar draws y DU. Bydd y Bil yn diweddaru cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau ar-lein, ac yn dileu'r cyfyngiadau darlledu daearyddol, gan symleiddio ei brosesau cymeradwyo ar gyfer gweithgarwch masnachol a diwygio strwythur llywodraethu S4C yn unol â'r adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd yn 2018.

### Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig

Mae'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wedi bod yn derbyn tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad[1] i ddarlledu yng Nghymru. Mae'n edrych ar sut i sicrhau sector darlledu llwyddiannus a deinamig yng Nghymru, dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a lle darlledu chwaraeon am ddim yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi ymweld â Llandudno ac Abertawe i gasglu barn rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â darlledu, gan gasglu barn pobl ifanc yn benodol am eu harferion gwylio ar wasanaethau ffrydio. Rhoddodd Ofcom dystiolaeth yn ystod mis Ebrill ac mae'r pwyllgor hefyd wedi clywed gan gynrychiolwyr o BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales, S4C, Tik Tok, Meta a YouTube, yn ogystal ag Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

### ITV Cymru Wales

Mae ITV Cymru Wales yn cynyddu ei gynyrchiadau y tu allan i'w hymrwymiadau trwydded ar gyfer rhwydwaith ITV a BBC Wales. Cafodd dwy raglen ddogfen nodedig am droseddau ar gyfer ITV Network eu comisiynu a'u cynhyrchu gan dîm rhaglenni'r rhwydwaith yn 2022 – *Cold Case Detectives a Cold Case Forenics*. Ym mis Mehefin 2022, lansiodd ITV Cymru Wales raglen ddiweddaraf Cymru (a'r unig un) a oedd yn arddangos y sîn gelfyddydol yng Nghymru – symudodd *Backstage* i oriau brig ddechrau 2023, gan dynnu sylw at ymrwymiad y cwmni i amrywiaeth eang o raglenni yn y slot amser brig.

Symudodd cyfres wleidyddol ITV Cymru Wales *Sharp End* i fformat newydd awr o hyd ddechrau 2023, gan ei wneud yn brif frand y tu allan i oriau brig. Mae'r fformat hirach yn rhoi mwy o le i ddadansoddi a thrafod gwleidyddiaeth yng Nghymru a sut mae'n effeithio ar fywydau bob dydd gwylwyr.

[1] https://committees.parliament.uk/work/6851/broadcasting-in-wales/

Yn ystod cystadleuaeth Cwpan y Byd FIFA yn 2022, dangosodd ITV y cyntaf o gemau Cymru yn erbyn UDA a sicrhaodd gynulleidfa brig yn y DU o 11.5 miliwn a chyfran o 56% o wylwyr. Yng Nghymru, roedd y gyfran frig hyd yn oed yn uwch, gyda 69% o'r gynulleidfa teledu oedd ar gael yn gwylio'r gêm ar ITV. Mae gan ITV hanes o roi sylw i chwaraeon cenedlaethol byw ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru a bydd yn dangos pob gêm yn nhwrnamaint Cwpan Rygbi'r Byd fydd yn cael ei chynnal yn Ffrainc yn ddiweddarach eleni.

## BBC Cymru Wales

Dathlodd BBC Cymru Wales ei ganmlwyddiant yn 2023 a bydd drama yn chwarae rhan allweddol yn allbwn BBC Cymru Wales. Mae dramâu sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd, neu sydd ar fin cael eu darlledu, yn cynnwys *Steeltown Murders*, sy'n canolbwyntio ar yr ymgyrch i ddal llofruddiwr tair menyw ifanc yn ardal Port Talbot a'r stori am sut – yn yr achos cyntaf o'i fath – y datryswyd y dirgelwch bron i 30 mlynedd yn ddiweddarach gan ddefnyddio tystiolaeth DNA. Mae'r dramâu eraill yn cynnwys *Wolf, Men Up, Tree on a Hill a Lost Boys and Fairies.*

Rhoddodd BBC Cymru Wales sylw helaeth i Gymru yng Nghwpan y Byd FIFA ac ochr yn ochr â sylw i'r gemau, darlledu rhaglenni dogfennol a chyngherddau, yn ogystal â darparu adnoddau addysgol i athrawon sy'n cyflwyno plant ysgolion cynradd i rai o'r gwledydd eraill oedd yn cystadlu yng Nghwpan y Byd.

Doedd tîm cenedlaethol y menywod ddim yn llwyddiannus yn ei gais fynd drwodd y tro hwn, ond roedd cynulleidfaoedd i'r gemau ar BBC Wales wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y rowndiau rhagbrofol, gan godi proffil a gwelededd y gêm i fenywod yng Nghymru.

Roedd y sylw i newyddion a materion cyfoes yn dal yr un mor bwysig ag erioed wrth i gynulleidfaoedd wylio darpariaeth gynhwysfawr ar draws gwasanaethau newyddion, radio ac ar-lein. Ymchwiliodd tîm *BBC Wales Investigates* i honiadau o rywiaeth, bwlio ac aflonyddu rhywiol yn Undeb Rygbi Cymru, gan ysgogi craffu pellach.

## S4C

Mae S4C yn gwasanaethu ei chynulleidfa gyda chynnwys sy'n diddanu, yn rhoi gwybodaeth ac yn adlewyrchu Cymru yn ei holl amrywiaeth. Ar hyn o bryd mae tri genre blaenoriaethol – drama, chwaraeon a rhaglenni plant.

### Drama

Dathlodd S4C ei phen-blwydd yn 40 oed ym mis Tachwedd 2022. Daeth *y Sŵn*, ffilm am yr ymgyrch i sefydlu S4C, ag un o'r cyfnodau mwyaf lliwgar yn hanes diweddar Cymru i gynulleidfaoedd newydd. Mae'r cynyrchiadau eraill ym maes drama wedi cynnwys *Y Golau*, cynhyrchiad drama cyntaf S4C ar y cyd â Channel 4, a *Dal y Mellt*, y cynhyrchiad S4C cyntaf i gael ei werthu i ffrydiwr byd-eang (Netflix) i'w ddosbarthu yn Gymraeg gydag isdeitlau Saesneg.

Mae *Itopia* ac *Y Goleudy* yn ddwy gyfres ddrama sydd wedi'u hanelu at wylwyr yn y grŵp oedran 11-13, ac sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan y Gronfa Cynnwys Oedolion Ifanc (YACF).

Lansiwyd partneriaeth S4C gyda Cymru Creadigol a Ffilm Cymru, Sinema Cymru, yn ystod 2022. Drwy'r cynllun hwn, bydd ffilm Gymraeg yn cael ei chreu bob blwyddyn, gydag Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol Cymru yn darparu hyfforddiant i feithrin talent ysgrifennu ffilmiau'r dyfodol.

### Chwaraeon

Chwaraeon yw un o gonglfeini gwasanaethau S4C o hyd. S4C oedd yr unig ddarlledwr i ddangos pob cam o daith tîm pêl-droed dynion Cymru i Gwpan y Byd yn Qatar. Roedd S4C hefyd yn rhan o ymgyrch Tîm Cymru i fynd â'r Gymraeg i dros 1,070 o ysgolion a dros 230,000 o blant drwy ei wasanaeth Stwnsh yn y cyfnod cyn Cwpan y Byd.

Mae sicrhau'r hawliau i ddarlledu digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol Cymru, yn rhad ac am ddim ac yn Gymraeg, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i S4C, ac mae'n rhan bwysig o'i gyfraniad at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 bod S4C wedi ffurfio partneriaeth â Viaplay i ddarlledu gemau pêl-droed rhyngwladol Cymru yn Gymraeg yn 2024-2028, gan ddangos o leiaf 40 gêm yn ystod y cyfnod. Parhaodd S4C hefyd i ddarlledu amrywiaeth o chwaraeon eraill gan gynnwys Giro d'Italia a'r Tour de France, a bydd yn darlledu uchafbwyntiau gemau pêl-droed merched Cymru.

### Plant

Mae gwasanaethau S4C i blant yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a lansiwyd *Cywion Bach*, cyfres i gefnogi trosglwyddo a dysgu'r iaith i deuluoedd â phlant ifanc, yn 2022. Ar Stwnsh, roedd modd gwylio'r gyfres *Lego® DREAMZzz* yn Gymraeg am y tro cyntaf. Penodwyd Swyddog Gweithredol Cynnwys Addysg i gynyddu'r defnydd o gynnwys S4C i gefnogi addysg a dysgu.

### Arall

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd partneriaeth gyda Ryan Reynolds a Fubo i ddarparu chwe awr o gynnwys Cymraeg S4C yr wythnos ar eu sianel Maximum Effort yn UDA o dan y brand 'Welsh Wednesdays'. Bydd hyn yn mynd â'r Gymraeg a chynnwys S4C i gynulleidfaoedd rhyngwladol a gobeithio y bydd yn denu incwm masnachol i'r sector creadigol yng Nghymru.

## Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i gefnogi cynaliadwyedd a thwf parhaus y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ei nod yw sefydlu Cymru fel y lle gorau i greadigrwydd ffynnu, drwy ddatblygu sgiliau, cefnogi doniau lleol a denu prosiectau creadigol rhyngwladol i adeiladu ar lwyddiannau presennol.

Ffocws Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiant sgrin yw sefydlu Cymru fel y lleoliad gorau ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu. Mae cynyrchiadau mawr a gafodd eu denu'n ddiweddar i Gymru yn cynnwys cynhyrchiad *Havoc* gan Netflix a chynhyrchiad Lucasfilm o *Willow*. Mae'r chwaraewyr byd-eang hyn, ochr yn ochr â chwmnïau cynhyrchu Cymru ei hun, yn helpu i ehangu economi Cymru, datblygu ei sylfaen sgiliau a chodi proffil Cymru ar draws y byd. Er mwyn bodloni'r galw am ofod stiwdio gan gynyrchiadau sy'n bwriadu ffilmio yng Nghymru, mae Cymru Greadigol yn buddsoddi mewn seilwaith stiwdio, gan gynnwys Stiwdios Aria newydd yn Ynys Môn. Mae Cymru Greadigol hefyd yn cefnogi'r llif o gynyrchiadau drwy fuddsoddi mewn syniadau newydd ac eiddo deallusol drwy ei fecanwaith cyllido datblygu, gyda rownd arall o gyllid yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2023. Gan gydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl gweithlu'r diwydiant i lwyddiant y diwydiant yn y dyfodol, mae Cymru Greadigol wedi gweithio gyda CULT Cymru a 6ft From the Spotlight CIC ar gynllun peilot i gyflwyno hwyluswyr llesiant (WBF) i'r sector cynhyrchu sgrin yng Nghymru. Roedd y cynllun peilot yn llwyddiannus, ac mae ail rownd y prosiect yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â diffyg sgiliau, lansiodd Cymru Greadigol ei Gynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a'r Gronfa Sgiliau Creadigol ym mis Medi 2022. Mae'r Cynllun yn nodi

deg maes ffocws blaenoriaethol sy'n cael eu defnyddio i dargedu buddsoddiadau'r Gronfa. Mae dau ar bymtheg o brosiectau wedi cael dros £1.5m o grantiau drwy'r Gronfa hon, ar draws y sectorau sgrin, cerddoriaeth, digidol a gemau yng Nghymru. Mae'r prosiectau'n amrywio o sgiliau lefel mynediad i hyfforddiant rheoli, ac maent yn cynnwys mentrau sy'n ceisio gwella amrywiaeth a chynhwysiant yn benodol, yn ogystal â phrosiectau traws-sector sy'n canolbwyntio ar sgiliau trosglwyddadwy rhwng yr holl sectorau creadigol ac uwchsgilio a lles y gweithlu llawrydd.

Ym mis Mawrth 2023, cefnogodd Cymru Greadigol wyth prosiect gyda grant cyfun o £352,545 o'i Gronfa Cynnwys i'r Ifanc. Bydd y cynllun, sy'n rhoi cyllid datblygu i gwmnïau cynhyrchu ar gyfer cynnwys dwyieithog newydd (animeiddiad neu ddarlledu byw) ar gyfer plant a phobl ifanc, yn agor ar gyfer ail rownd o gyllid yn ddiweddarach eleni. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â thynnu cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer y segment hwn yn ôl drwy gronfa YAC (sydd bellach wedi cau).

Mae Cymru Greadigol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru drwy ei Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda BBC Cymru ac S4C.


## Panel arbenigol ar ddatganoli darlledu

Mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, yn dweud y bydd yn edrych ar greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, er mwyn "*mynd i'r afael â phryderon am fregusrwydd presennol y cyfryngau ac ymosodiadau ar ei annibyniaeth*. *Byddai'r corff hwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau. Rydym ni o'r farn y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i Gymru."* Mae'r panel arbenigol a sefydlwyd i hyn wedi bod yn derbyn tystiolaeth gan dystion ac fe gyhoeddodd ei adroddiad ar 2 Awst 2023.

# Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

Roedd gan y rhan fwyaf (96%) o gartrefi yng Nghymru set deledu yn Ch1 2023. Roedd gwasanaethau teledu traddodiadol y telir amdanynt fel lloeren (Sky yn bennaf) a gwasanaethau cebl (Virgin Media) yn bresennol mewn 40% o gartrefi yn Ch1 2023. Mae gwasanaethau lloeren y telir amdanynt yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r rhain, gyda gwasanaeth cebl Virgin Media yn bresennol mewn dim ond 7% o gartrefi Cymru yn Ch1 2023. Cartrefi sy'n derbyn gwasanaethau daearol digidol (DTT) yn unig (a ddarperir drwy erial) sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o wylio teledu heb danysgrifiad (30%) yng Nghymru, gyda lloeren am ddim yn bresennol mewn dim ond 5% o gartrefi yng Nghymru, drwy Freesat neu Freesat gan Sky. Dim ond 5% o gartrefi yng Nghymru oedd â gwasanaeth teledu protocol rhyngrwyd (IPTV). Caiff y rhain eu darparu drwy flychau pen-set gan ddarparwyr gan gynnwys TalkTalk a BT, ac maent yn cynnig gwasanaeth Freeview ochr yn ochr â sianeli teledu drwy dalu, sy'n cael eu darparu drwy gysylltiad rhyngrwyd.1F[2]

**Ffigur 1: Y nifer sy'n defnyddio llwyfannau teledu yng Nghymru: Ch1 2023**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB, Ch1 2023. Mae 'gwasanaethau DTT yn unig' yn cynnwys cartrefi sydd ag erial yn unig ac nid cebl, lloeren neu IPTV. Mae IPTV yn cynnwys BT Vision, TalkTalk, Youview neu Plusnet. Yn adroddiad 2022 roedd 'gwasanaethau traddodiadol y telir amdanynt' hefyd yn cynnwys IPTV ac felly nid ydynt yn debyg i'r ffigur uchod sy'n cynnwys cebl a lloeren â thâl yn unig.*


2 Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2023

## Roedd gan saith o bob deg defnyddiwr teledu yng Nghymru deledu wedi'i gysylltu yn 2023

Mae sawl ffordd y gall defnyddwyr teledu yng Nghymru gysylltu eu setiau teledu â'r rhyngrwyd. Gall hyn fod drwy deledu 'clyfar' sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r rhyngrwyd neu drwy flychau pen-set a ddarperir gan ddarparwyr teledu drwy dalu fel Sky, Virgin Media neu BT. Mae dyfeisiau allanol fel ffyn ffrydio a chonsolau gemau hefyd yn gallu darparu mynediad i'r rhyngrwyd i setiau teledu.

Yn ystod hanner cyntaf 2023, roedd gan saith defnyddiwr teledu o bob deg (70%) yng Nghymru deledu wedi'i gysylltu, sy'n debyg iawn i gyfartaledd y DU (65%). Roedd defnyddwyr teledu yng Nghymru yn fwy tebygol o gysylltu eu teledu i'r rhyngrwyd drwy flwch pen-set (44%), fel Sky+ neu Virgin Media Tivo, nag yn y DU drwyddi draw (32%).

**Ffigur 2: Setiau teledu wedi'u cysylltu yng Nghymru: 2023**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2023.*

**Band Eang yng Nghymru**

Roedd gan dros naw cartref o bob deg (92%) yng Nghymru gysylltiad â'r rhyngrwyd yn hanner cyntaf 2023; roedd gan 88% fand eang sefydlog.[3] O fis Medi 2022 ymlaen, roedd gwasanaethau band eang cyflym iawn (sy'n cynnig cyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit yr eiliad o leiaf) ar gael i 95% o'r holl gartrefi yng Nghymru. O'r rhain, roedd saith o bob deg cartref (71%) yn defnyddio gwasanaeth cyflym iawn, i fyny o 66% yn 2021. Roedd gwasanaethau ffeibr llawn ar gael mewn 40% o gartrefi yng Nghymru. 28% oedd canran y defnydd yn y cartrefi hynny.[4]

[3] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom
[4] Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr. Edrychwch ar adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2022 y DU ac adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2022 Cymru i gael rhagor o wybodaeth.


# Tueddiadau gwylio

## Cyfanswm gwylio clyweledol yn y cartref

### Cymru oedd wedi gwylio'r swm mwyaf o SVoD/AVoD o'r holl wledydd yn 2022

Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru yn gwylio 4 awr 43 munud o gynnwys fideo bob dydd yn 2022, yr ail uchaf ymysg gwledydd y DU. Roedd cynnwys gan ddarlledwyr – sy'n cynnwys teledu byw, teledu wedi'i recordio a fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) – yn cyfrif am 61% o'r amser hwn (2 awr 51 munud), sydd ar yr un lefel â chyfartaledd y DU. Ar ben hynny, roedd pobl yng Nghymru wedi treulio 15% o gyfanswm eu hamser fideo ar wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) a gwasanaethau fideo ar-alw (AVoD), a 15% ar lwyfannau rhannu fideos.

**Ffigur 3: Cyfanswm munudau gwylio fideos bob dydd yn y cartref fesul person, wedi'u rhannu yn ôl llwyfan, yn ôl gwlad: 2022**




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwelwyd. Mae cynnwys darlledwyr yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a BVoD. Nid yw cyfanswm munudau y DU yma yr un fath ag yn adroddiad y DU; mae adroddiad y DU yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer gwylio y tu allan i'r cartref nad ydynt wedi'u cynnwys yma. Oherwydd talgrynnu, gallai cyfanswm y munudau yn y siart fod ychydig yn wahanol i gyfanswm adrannau unigol pob bar. Mae 'defnyddio setiau teledu eraill' yn cynnwys gwylio rhai SVoD/AVoD/VSP nad oes modd eu mesur yn bendant. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys rhai sianeli darlledu heb eu mesur, gwylio DVD/DVR nad yw'n ddal-i-fyny, rhywfaint o bori ar yr EPG/ddewislen, gwylio pan fydd y sain yn dawel, lladrad, setiau bocs heb eu mesur/cynnwys talu-i-wylio, a gweithgarwch rhyngrwyd heb fod yn fideo drwy gyfrifiadur personol neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r teledu. Nid yw SVoD yn cynnwys gwylio NOW, sy'n gynwysedig o fewn BVoD ynghyd â Sky Go/Sky TV On Demand (mae'r ddau wasanaeth hyn yn ffrydio'r un cynnwys, felly ni ellir gwahanu gwylio wedi'i fesur).*

## Gwylio teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru

**O ble daw ein data**


Daw'r rhan fwyaf o'r data gwylio gan Barb Audiences Ltd (Barb), sef safon y diwydiant ar gyfer mesur beth mae pobl yn ei wylio. Mae hyn yn cynnwys gwylio teledu wedi'i ddarlledu drwy setiau teledu a thrwy ddyfeisiau sy'n gysylltiedig â setiau teledu, fel cyfrifiaduron, dyfeisiau ffrydio a blychau pen-set. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o wylio ar gyfer gwasanaethau ffrydio ar-lein ac ar gyfer dyfeisiau nad ydynt wedi'u cysylltu â'r teledu sy'n cael eu gwylio gartref drwy WiFi. Nid yw Barb yn cynnwys gwylio gwasanaethau SVoD na llwyfannau rhannu fideos y tu allan i'r cartref.

**Oni nodir fel arall, mae'r ffigurau Barb a nodir ar gyfer darlledu ar deledu ar gyfer gwylio wedi'i gyfuno dros 28 diwrnod ar set deledu. Mae gwylio cyfunol yn cynnwys gwylio rhaglenni ar yr adeg y cawsant eu darlledu (gwylio byw) yn ogystal â recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a thrwy wasanaethau BVoD ar-lein (e.e. BBC iPlayer, ITV, a Sky Go/Sky TV On Demand) hyd at 28 diwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (symud amser).**

## Roedd gwylwyr yng Nghymru ar gyfartaledd wedi gwylio'r ail swm mwyaf o deledu wedi'i ddarlledu o holl wledydd y DU yn 2022

Ar gyfartaledd, treuliodd pobl yng Nghymru 2 awr 45 munud y dydd yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar set deledu yn 2022, yr ail fwyaf o unrhyw wlad yn y DU. Roedd hyn yn ostyngiad o 23 munud o 2021. Yn gymesur, roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua 12% rhwng 2021 a 2022, ar yr un lefel â gostyngiad cyfartalog y DU.

**Ffigur 4: Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd, y pen, yn ôl gwlad: 2017-2022**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4 oed a hŷn).*

## Roedd gwylio'r teledu wedi gostwng ymysg pob grŵp oedran.

Yn unol â'r duedd gyffredinol ar draws y DU, mae pobl hŷn yng Nghymru yn gwylio mwy o deledu wedi'i ddarlledu ar set deledu o'i gymharu â gwylwyr iau. Roedd pobl dros 54 wedi gwylio mwy nag unrhyw grŵp oedran arall, 4 awr 58 munud y dydd ar gyfartaledd, a oedd wedi disgyn 10.6% ers 2021. Plant rhwng 4 a 15 oed oedd yn gwylio'r lleiaf, ar gyfartaledd o 43 munud y dydd, i lawr 21.2% ers 2021.

**Ffigur 5: Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran 2021-2022**




*Ffynhonnell: Barb 28 diwrnod wedi'i gyfuno, set deledu yn unig. Ardaloedd y BBC.*

## Chwaraeon a digwyddiadau arbennig oedd yn dominyddu'r rhaglenni teledu mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn 2022

Mae cariad Cymru at rygbi yn cael ei adlewyrchu yn y rhestr y rhaglenni 10 uchaf; Cymru yw'r unig wlad lle mae unrhyw gemau rygbi yn ymddangos yn ei 10 uchaf. Fel yn 2021, *Cymru v Ffrainc Rygbi'r Chwe Gwlad* a ddarlledwyd ar BBC One oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf yng Nghymru y flwyddyn honno, gyda chynulleidfa gyfartalog o 652,000. Daeth y gêm i ben gyda buddugoliaeth i Ffrainc dros Gymru (13-9). Roedd colled Cymru yn erbyn Lloegr (19-23) mewn gêm arall ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad bythefnos yn ddiweddarach hefyd ar y rhestr rhaglenni uchaf yn 2022, gyda chynulleidfa gyfartalog o 540,000.

Yr unig raglen ddrama i'w chynnwys yn y deg uchaf oedd *Strike* (gyda chynulleidfa gyfartalog o 560,000). Y rhaglen adloniant, I'm a Celebrity... Get Me Out of Here! (535,000) oedd yr unig raglen arall ar wahân i chwaraeon neu ddigwyddiadau arbennig i gael ei chynnwys ar y rhestr.

**Ffigur 6: Yr 10 rhaglen a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru: 2022**

| Safle | Teitl y rhaglen | Sianel | Dyddiad | Cynulleidfa gyfartalog (000oedd) | Cyfran y rhaglen (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Rygbi'r Chwe Gwlad; Cymru v Ffrainc | BBC One | 11/03/2022 | 652 | 48.8 |
| **2** | Angladd Gwladol EM y Frenhines Elizabeth II (rhan 2) | BBC One | 19/09/2022 | 624 | 62.7 |
| **3** | Cwpan Pêl-droed y Byd FIFA 2022 | BBC One | 29/11/2022 | 612 | 56.2 |
| **4** | Cwpan y Byd | ITV1 Wales | 21/11/2022 | 573 | 51.6 |
| **5** | Happy New Year Live! | BBC One | 31/12/2022 | 561 | 50.1 |
| **6** | Strike | BBC One | 11/12/2022 | 560 | 45.6 |
| **7** | Jiwbilî Blatinwm y Frenhines | BBC One | 04/06/2022 | 551 | 59.0 |
| **8** | Rygbi'r Chwe Gwlad; Lloegr v Cymru | ITV1 Wales | 26/02/2022 | 540 | 59.7 |
| **9** | Angladd Gwladol EM y Frenhines Elizabeth II (rhan 1) | BBC One | 19/09/2022 | 539 | 61.9 |
| **10** | I'm a Celebrity... Get Me Out of Here! | ITV1 Wales | 09/11/2022 | 535 | 42.2 |

*Ffynhonnell: Barb 28 diwrnod wedi'i gyfuno ar draws teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref. Y bennod sy'n ymddangos fwyaf yn ôl sianel, wedi'i rhestru yn ôl cynulleidfa gyfartalog. Mae'r sianeli'n cynnwys unrhyw +1 cyfatebol.*


## Roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli dros hanner o gyfanswm y gwylio teledu

**Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus?**

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd yng Nghymru gan y BBC, ITV (sy'n dal trwydded Channel 3 yng Nghymru), S4C, Channel 4 Corporation (C4C) a Channel 5. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC ac S4C yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynyrchiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrwm (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, ar gyfer y BBC ac S4C, ffi'r drwydded.

Yn 2022, roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran o 52.5% o gyfanswm cynulleidfa teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru. Roedd hyn yn ostyngiad bach o 53.4% yn 2021. BBC One oedd â'r gyfran cynulleidfa uchaf o unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol, sef 22.8%, a Channel 4 oedd â'r gyfran isaf, sef 3.8%. Cyfran cynulleidfa BBC One a BBC Two yng Nghymru yw'r uchaf ymysg gwledydd y DU.

**Ffigur 7: Cyfran o gyfanswm gwylio teledu ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl gwlad: 2022 (%)**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4 oed a hŷn). Nid yw'n cynnwys unrhyw sianeli +1 awr.*

## Yn gyffredinol, mae saith o bob deg cynulleidfa yng Nghymru yn fodlon ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Canfu Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom (PSM)[5] yng Nghymru fod saith o bob deg (69%) o'r rheini a oedd wedi gwylio sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis diwethaf wedi dweud eu bod yn fodlon â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol; dim ond un o bob deg (10%) ddywedodd eu bod yn anfodlon. Mae hyn yn gyson â chyfanswm y DU a chanfyddiadau o 2021.

[5] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.

**Ffigur 8: Bodlonrwydd â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol – cyfanswm y DU ac yn ôl gwlad: 2022**





*Ffynhonnell: Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022 Ofcom. Cwestiwn 28. Ac nawr, os ydych chi'n meddwl am BOB sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd, pa mor fodlon ydych chi eu bod, gyda'i gilydd, yn darparu'r gwahanol elfennau y gofynnwyd amdanyn nhw yn y cwestiwn blaenorol? Sail: Pawb sydd wedi gwylio gwasanaeth/sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y 6 mis diwethaf, Cyfanswm y DU (2,826), Lloegr (1,850), Gogledd Iwerddon (366), yr Alban (303), Cymru (307). Sylwch, ddim yn dangos canrannau o dan 5%.*

## Mae tri chwarter y rheini sy'n gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn fodlon ar Channel 4, ITV a BBC One

Pan ofynnwyd iddynt ystyried sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unigol, dywedodd dros dri chwarter y gwylwyr eu bod yn fodlon â Channel 4 (80%), a BBC One (77%), gyda chyfran ychydig yn is yn dweud yr un peth am BBC Two (73%) a Channel 5 (74%). Dywedodd tua saith o bob deg eu bod yn fodlon ag ITV Cymru Wales (69%).

**Ffigur 9: Bodlonrwydd â sianeli unigol: 2022**




*Ffynhonnell: Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022 Ofcom. Cwestiwn 23. Gan feddwl am rai o'r sianeli penodol rydych chi wedi'u gwylio yn ystod y 6 mis diwethaf, yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r sianeli teledu hyn? Sail: Pawb sydd wedi gwylio ... yn ystod y 6 mis diwethaf, BBC One (276), Channel 4 (259), BBC Two (240), ITV Cymru Wales (224), Channel 5 (247), S4C (101). Sylwch, ddim yn dangos canrannau o dan 3%.*

## Mae gwylwyr yng Nghymru yn credu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'n dda ar amrywiaeth eang o raglenni

Dywedodd tri chwarter (75%) y gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus[6] yng Nghymru fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn perfformio'n dda yn gyffredinol o ran darparu 'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon', ffigur sy'n uwch nag mewn unrhyw wlad arall. Dywedodd tua saith o bob deg eu bod wedi cyflawni'n dda o ran '*rhaglenni a wnaed ar gyfer cynulleidfaoedd y DU' (72%) a 'rhaglenni sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw*' (68%).

Dywedodd tua hanner fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'n dda ar '*raglenni sy'n cynnwys Cymru*' (49%) a dywedodd bron i dri o bob pump (58%) yr un fath ar gyfer '*rhaglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal*', sef cynnydd o chwe phwynt canran ar 2021. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth mewn agweddau at sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol; er enghraifft, roedd gwylwyr yng Nghymru yn llawer mwy tebygol na chyfanswm y DU o ddweud bod sianeli teledu'r BBC yn cyflawni'n dda ar '*raglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal*' (62% o'i gymharu â 56%), ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cyflawni'n dda ar '*raglenni a wnaed ar gyfer cynulleidfaoedd y DU*' (75% o'i gymharu â 67%).

[6]Mae Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2022 Ofcom yn diffinio gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel pawb sydd wedi gwylio sianel/gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis diwethaf

Ar gyfer sianeli ITV Cymru Wales ac ITV TV, roedd gwylwyr yn fwy tebygol na chyfanswm y DU o ddweud eu bod wedi cyflawni'n dda ar '*raglenni sy'n cynnwys Cymru*' (65% o'i gymharu â 49%). Mae'r un peth yn wir am '*raglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal*' (65% o'i gymharu â 52%).

## S4C

Dywedodd dwy ran o dair (66%) o wylwyr S4C yng Nghymru eu bod yn fodlon ag S4C. Dywedodd pedwar o bob pump (79%) fod S4C yn cyflawni'n dda ar '*raglenni sy'n cynnwys Cymru*', y datganiad â'r sgôr uchaf ar gyfer unrhyw sianel y gofynnwyd amdani. Dywedodd tri o bob pump (61%) ei bod wedi cyflawni'n dda ar gyfer '*rhaglenni a wnaed ar gyfer cynulleidfaoedd y DU*' (61%) a '*rhaglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal*' (63%).

Dywedodd saith gwyliwr o bob deg (71%) yn y DU yr un fath ar gyfer S4C Clic. Roedd gan S4C Clic sgoriau cyflawni tebyg ar draws y rhan fwyaf o ddatganiadau, ond roedd yn cael ei weld yn cyflawni'n arbennig o dda ar ddatganiadau fel '*rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd y DU*', (67%) '*hawdd dod o hyd i rywbeth rydw i eisiau ei wylio*' (67%) a '*rhaglenni sy'n cynnwys pobl fel fi*' (67%).[7]

[7] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.


# Tueddiadau gwylio fideo ar-alw

## Mae gan wylwyr ddewis eang o wasanaethau tanysgrifio

Yng Nghymru, roedd nifer y cartrefi a oedd yn defnyddio gwasanaethau SVoD wedi gostwng yn Ch1 2023, gyda 63% o gartrefi yn tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth, i lawr o 71% yn Ch1 2022.[8]

Netflix yw'r gwasanaeth SVoD mwyaf poblogaidd yng Nghymru, wedi'i ddilyn gan Amazon Prime Video a Disney+, ond mae nifer o wasanaethau SVoD llai ar gael i wylwyr yng Nghymru sydd, gyda'i gilydd, â chyrhaeddiad sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau fel NOW ac Apple TV, a gwasanaethau genre arbenigol fel Shudder (arswyd) a Hayu (teledu realaeth).


**Ffigur 10: Gwasanaethau SVoD a ddefnyddiwyd yng Nghymru i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill 2023**




*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2023. Oedolion/pobl ifanc yn eu harddegau 13+ ar-lein, Cymru. Cwestiwn: Q1a. Allwch chi ddweud wrthym pa rai o'r gwasanaethau canlynol rydych chi'n bersonol wedi'u defnyddio i wylio rhaglenni, ffilmiau neu gynnwys fideo arall yn ystod y 3 mis diwethaf? Sail: 158. Cynhaliwyd y gwaith maes ar 22ain – 27ain Chwefror 2023. *Rhaid talu ffi'r drwydded er mwyn defnyddio BBC iPlayer.*

[8] Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2023.

YouTube oedd y llwyfan rhannu fideos mwyaf poblogaidd, gyda 55% o bobl ifanc ac oedolion ar-lein yng Nghymru yn dweud eu bod wedi ei ddefnyddio i wylio rhaglenni, ffilmiau neu gynnwys fideo arall yn y tri mis cyn y gwaith maes, ychydig yn is na Lloegr a'r Alban, ond ychydig yn uwch na Gogledd Iwerddon.




Roedd fideos byr (15 munud neu lai) a fideos hir (mwy na 15 munud) yr un mor boblogaidd ymysg defnyddwyr YouTube yng Nghymru (50% ill dau). Roedd YouTube Shorts yn llai poblogaidd, gyda 35% yn eu gwylio, gyda 23% yn dweud eu bod yn gwylio rhaglenni neu ffilmiau hyd llawn.[9]

Mae Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Ofcom yn dangos bod lefelau bodlonrwydd â gwasanaethau SVoD yn dal yn uchel; mae dros bedwar gwyliwr o bob pump yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon â Disney (87%) Netflix (86%) ac Amazon Prime (83%).[10]


## Mae bron i dri chwarter oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau yng Nghymru yn gwylio BBC iPlayer

Canfu arolwg VoD Ofcom bod 93% o'r oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau sydd ar-lein yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth gwylio fideo ar-alw am ddim (unrhyw wasanaeth ffrydio nad yw y tu ôl i wal dalu, gan gynnwys YouTube). Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffigurau ar gyfer Lloegr, ychydig yn uwch na'r Alban ac ychydig yn is na Gogledd Iwerddon.

Roedd bron i dri o bob pedwar o bobl yng Nghymru (73%) wedi defnyddio BBC iPlayer yn 2023, gydag ychydig o dan hanner wedi defnyddio Channel 4 (48%) ac un o bob pump wedi defnyddio My5 (20%) yn ystod yr un cyfnod. Ar ôl ei lansio ddiwedd 2022, dywedodd ychydig o dan hanner y bobl yng Nghymru eu bod wedi defnyddio ITVX yn gynnar yn 2023 (45%).

[9] Arolwg VoD Ofcom 2023. Sylwch: nid yw'r categori 'fideos byr' yn cynnwys fideos YouTube Short, nid yw fideos yr un mor hir yn cynnwys rhaglenni a ffilmiau hyd llawn.
[10] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2022.

**Ffigur 11: Gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddiwyd i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill yn ystod y tri mis diwethaf**




*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2023. Oedolion/pobl ifanc yn eu harddegau 13+ ar-lein, Cymru. Cwestiwn: Q1a. Allwch chi ddweud wrthym pa rai o'r gwasanaethau canlynol rydych chi'n bersonol wedi'u defnyddio i wylio rhaglenni, ffilmiau neu gynnwys fideo arall yn ystod y 3 mis diwethaf? Sail: 158. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 22-27 Chwefror 2023. *Rhaid talu ffi'r drwydded er mwyn defnyddio BBC iPlayer.*

## Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn fodlon â gwasanaethau BVoD

Pan ofynnwyd iddynt ystyried eu bodlonrwydd â'r gwahanol wasanaethau BVoD, dywedodd dros bedwar gwyliwr o bob pump (86%) yng Nghymru eu bod yn fodlon â BBC iPlayer, a dywedodd tua thri chwarter yr un fath ar gyfer ITV Hub[11] (78%), All 4 (75%) a My5 (77%).


Yng Nghymru, dywedodd gwylwyr BVoD[12] eu bod yn defnyddio gwasanaethau BVoD '*i ddal i fyny ar raglenni rydw i wedi'u colli ar deledu*' (64%), er mwyn gallu '*gwylio beth maen nhw ei eisiau, pryd maen nhw ei eisiau*' (51%), i wylio rhaglenni penodol neu setiau bocs (39%) neu i wylio rhaglenni hŷn neu archif (39%). I'r gwrthwyneb, roedd rhai o'r rhesymau a grybwyllwyd amlaf dros beidio â defnyddio gwasanaethau BVoD yn ymwneud â ffafrio gwasanaethau eraill, peidio â bod â diddordeb yn y rhaglenni sydd ar gael, neu beidio â chael mynediad at y gwasanaeth.

[11]Ar adeg y gwaith maes ar gyfer yr Adnodd Tracio Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, roedd gwasanaeth BVoD Channel 4 yn cael ei alw'n All 4 neu All 4+, a BVoD ITV oedd ITV Hub neu ITV Hub+.
[12]Diffinnir gwylwyr BVoD fel y rheini sydd wedi gwylio o leiaf un gwasanaeth BVoD yn ystod y chwe mis diwethaf.

## Ffynonellau newyddion

Mae dros hanner oedolion Cymru (55%) wedi defnyddio BBC One ar gyfer newyddion yn gyffredinol, sy'n golygu mai dyma'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf, ac yna ITV Cymru Wales (40%). Roedd y sianeli teledu eraill yn y deg uchaf yn cynnwys Sky News Channel, a BBC News Channel. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn uchel iawn hefyd, gyda Facebook y drydedd ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd (37%), ac roedd Twitter (20%) ac Instagram (18%) yn wythfed a nawfed yn y drefn honno. BBC Radio 2 oedd y brif orsaf radio a nodwyd (14%). Nid oedd unrhyw bapur newydd wedi cyrraedd y deg uchaf. Eleni, roedd Arolwg Ofcom o'r Defnydd o Newyddion hefyd yn casglu ffigurau sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw. Y mwyaf poblogaidd o'r rhain oedd BBC iPlayer; mae ychydig o dan chwarter yr oedolion (23%) yng Nghymru yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ar gyfer newyddion. Ymddangosodd ITVX hefyd yn y 20 ffynhonnell newyddion uchaf, a ddefnyddiwyd gan 13% o oedolion.[13]

**Ffigur 12: Deg ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2022**





*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2022 - sampl CYFUN F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: D2a-D8a. Gan feddwl yn benodol am <llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn yng Nghymru 2023 – 657, **Ychwanegwyd BBC iPlayer yn 2023*

Mae gan y bobl sy'n byw yng Nghymru gryn ddiddordeb mewn newyddion am Gymru. Mae ychydig mwy na dwy ran o bump o'r rhai sy'n dilyn newyddion yn dweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am Gymru (41%), ffigur sy'n codi i 86% ymysg y rheini sydd â diddordeb 'mawr' neu 'ganolig'. Fel sy'n cael ei ddangos isod, oedolion yng Nghymru a'r Alban sydd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad.

[13] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023

**Ffigur 13: Lefel diddordeb pobl mewn newyddion am eu gwlad eu hunain, yn ôl gwlad: 2023**




*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2023 - sampl cyfun F2F ac AR-LEIN. Cwestiwn: F3. Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn newyddion am eich GWLAD/RHANBARTH? Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n dilyn newyddion 2023 - Cyfanswm=4371, Lloegr=2516, Yr Alban=665, Cymru=627, Gogledd Iwerddon=563*

BBC One (38%) ac ITV Wales (28%) oedd y ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd a'r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer y wlad, ac wedyn Facebook (25%) a gwefan/ap y BBC (13%).[14]

[14] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2023

## Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru

Mae'r BBC ac ITV Cymru Wales yn darparu rhaglenni'n benodol i wylwyr yng Nghymru ar draws amrywiaeth o genres, ond yn fwyaf arbennig rhaglenni newyddion. Roedd cynnydd o 28% yn y gwariant ar gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf i wylwyr yng Nghymru yn 2022, gyda’r gwariant ar raglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn cynyddu fwyaf, i fyny 53%. Mae rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant ar raglenni sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf (58%) yng Nghymru.

Roedd oriau’r BBC o gynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi codi 5% yn 2022 i 603 awr Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw’r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 51% o’r oriau sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf.

Mae Cymru yn ffynhonnell bwysig hefyd o gynhyrchu cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddangos ar draws y DU. 3.4% o’r gwariant rhwydwaith cymwys ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gafodd ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2022.

**Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni**

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae’n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o’r DU i’w ddarlledu am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda’r bwriad o’u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.

Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae’r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw’n cynnwys costau sy’n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu.

**Sut rydym yn cyflwyno data ariannol**


Cyflwynir data ariannol a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn mewn termau nominal, sy’n golygu nad yw data hanesyddol wedi cael ei addasu i ystyried chwyddiant. Yn ein hadroddiad rhyngweithiol, gall defnyddwyr weld data ariannol mewn termau nominal neu ‘real’ (wedi’i addasu yn ôl CPI), gyda defnyddwyr yn gallu symud yn hawdd rhwng y ddau.

## Fe wnaeth gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru gynyddu 28% yn 2022

O'r cyfanswm o £35.2m a wariwyd, aeth y rhan fwyaf at raglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes, sef £20.3m; cynnydd o un flwyddyn i'r llall o £7m.

Rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes welodd y cynnydd cymharol mwyaf mewn gwariant sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, cynnydd o 53% o un flwyddyn i'r llall i £20.3m. Roedd gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni newyddion yng Nghymru wedi codi 6%.

**Ffigur 14: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre: 2017-2022 (£m)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Fe wnaeth gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru gynyddu yn 2022

Mae'r cynnydd yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn cael ei sbarduno gan y BBC, ac mae'r gwariant ar gyfer Cymru wedi cynyddu o £21.6m yn 2021 i £29.5m yn 2022 (cynnydd o 37%). Fel y dangosir gan y cyfansymiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyfun uchod, roedd hyn yn bennaf o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni materion cyfoes.[15] Roedd gwariant ITV ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 3% yn 2022.

**Ffigur 15: Gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru: 2017-2022 (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*


[15]Gall hyn gynnwys rhai cyd-gomisiynau rhwng gwasanaethau rhwydwaith y BBC a gwasanaethau heb fod ar y rhwydwaith. Yn 2022, pe bai rhaglenni o'r fath yn cael eu darlledu'n rhanbarthol yn gyntaf, mae'r gwariant yn cael ei gofnodi fel rhan o wariant rhaglenni rhanbarthol y BBC.

## Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi codi 5% yn 2022 i 603 awr

Mae'r cynnydd mewn oriau wedi cael ei sbarduno gan faterion cyfoes a rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes. Mae'r cynnydd cyfrannol mwyaf wedi bod mewn rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes, gyda chynnydd o 79 awr i 265 awr (42%).

Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 51% o'r oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Mae hyn yn ostyngiad ers 2021, a oedd yn bennaf oherwydd diwedd Diweddariad Coronafeirws Wales Today.

**Ffigur 16: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre: 2017-2022**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Roedd oriau ITV Cymru Wales o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall, gyda 323 awr o allbwn rhaglenni yn 2022

Cynnwys newyddion yw mwyafrif helaeth allbwn ITV Cymru Wales, sef 76% (247 awr) o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y sianel.

Mae'r gostyngiad mewn oriau wedi digwydd yn gyfan gwbl oherwydd newyddion, sydd wedi gostwng 11 awr (4%). Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod mewn rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes, gyda chynnydd o 2 awr i 21 awr (cynnydd o 11%).

**Ffigur 17: Oriau ITV Cymru Wales o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre: 2017-2022**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr*

## Cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru

Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gwotâu mewn perthynas â gwariant ac oriau cynnwys sy’n cael ei gynhyrchu yn y DU sy’n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar eu sianel deledu rhwydwaith. Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae gan Channel 4 gwota ‘tu allan i Loegr’ hefyd. Nid oes gofyniad penodol i ITV na Channel 5 gynhyrchu cynnwys y tu allan i Loegr.

Ymysg yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cafodd 3.4% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar raglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ei neilltuo i raglenni sy'n cyfrif fel cynyrchiadau o Gymru, a 3.4% o'r oriau.

**Ffigur 18: Cyfran yr oriau rhwydwaith a'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain, pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd: 2017-2022 (%)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr*


## Roedd allbwn cyffredinol cynnwys rhwydwaith a wnaed yng Nghymru wedi cynyddu yn 2022, er bod lefelau gwariant cymwys wedi gostwng

Roedd y BBC, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnwys rhwydwaith cymwys sy'n cael ei wneud yng Nghymru, wedi lleihau cyfran ei wariant rhwydwaith yng Nghymru i 5.4% yn 2022, tra roedd cyfran yr oriau wedi codi i 5.8%. Mae peth o'r cynnydd yn yr oriau yn deillio o sylw i'r gystadleuaeth crefft ymladd gymysg Bellator ar BBC Three a ail-lansiwyd, a reolir gan ganolfan Whisper Films Limited yng Nghaerdydd, gyda gwariant a dyraniadau criwiau yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'r BBC yn rheoli nifer o gynyrchiadau celfyddydol a cherddoriaeth o Gaerdydd, yn ogystal â chyfresi drama hirsefydlog fel Casualty a Doctor Who.

Gostyngodd cyfran yr oriau a'r gwariant cymwys a ddyrannwyd i Gymru gan ITV yn 2022. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod I'm a Celebrity...Get Me Out of Here! wedi cael ei adleoli dros dro yn 2021, a ddychwelodd i ffilmio yn Awstralia ar ôl llacio'r cyfyngiadau teithio ar ôl pandemig Covid-19.

Mewn cyferbyniad, cynyddodd y gwaith cynhyrchu rhwydwaith yng Nghymru ar gyfer Channel Four yn 2022. Mae'r prif deitlau a ddyrannir i Gymru yn cynnwys teitlau adloniant ffeithiol a hamdden Handmade: Britain's Best Woodworker a Find It, Fix It, Flog It, a'r fformat cystadleuaeth eiddo newydd Flipping Fast.

**Ffigur 19: Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2017-2022 (%)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr*

# Radio a sain

## Datblygiadau yn y farchnad

### BBC Cymru Wales

Ym mis Chwefror, cyflwynodd Owain Wyn Evans raglen dydd gyntaf BBC Radio 2 y tu allan i Lundain. Daeth ei sioe ben bore, a gynhyrchwyd gan gwmni cynhyrchu annibynnol o Gymru, Bengo Media, ar y tonfeddi fel rhan o ymrwymiad creadigol y BBC i wasanaethu'r DU gyfan. O fis Medi ymlaen, bydd BBC Radio 1, 2, 3 a 4 yn darlledu o bencadlys BBC Cymru Wales yn y Sgwâr Canolog bob wythnos. Y sioe ddiweddaraf i gyhoeddi mai Caerdydd yw ei chartref yw'r *Weekend Breakfast Show* ar BBC Radio 1 gyda Sam a Danni.

Mae BBC Radio Wales wedi adnewyddu ei hamserlen yn ystod yr wythnos, gan gynnwys *Radio Wales Breakfast* ar ei newydd wedd. Mae newyddion a materion cyfoes wrth galon y rhaglen, gan adlewyrchu newyddion yng Nghymru, ar draws y DU a'r byd.

Lansiwyd Siarad Anabledd | Talk Disability ym mis Ionawr, sef dechrau ymrwymiad newydd BBC Cymru Wales i anabledd, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, dros y deuddeg mis nesaf. Mae'n cynnwys rhaglenni, mentrau a chynnwys sydd wedi'u cynllunio i ysbrydoli sgyrsiau am anabledd. Yn ganolog i'r ymrwymiad oedd cyhoeddi hyfforddeiaethau newydd BBC Cymru Wales yn benodol ar gyfer pobl ag anableddau, wedi'u creu mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru ac sy'n cynnwys lleoliadau wyth wythnos naill ai mewn adrannau radio, newyddion neu fusnes a gweithrediadau.

### DAB ar Raddfa Fach (SSDAB)

Mae Ofcom wedi parhau i drwyddedu DAB ar raddfa fach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn ddiweddar mae wedi dyfarnu tair trwydded amlblecs yn y bedwaredd rownd o drwyddedu (Casnewydd a Chas-gwent, Gogledd Sir Benfro a De Sir Benfro), gan ddod â nifer y trwyddedau amlblecs ar raddfa fach a ddyfarnwyd yng Nghymru i wyth, gyda DAB Caerdydd bellach ar yr awyr (mae'n rhaid i amlblecsau radio ar raddfa fach lansio dim mwy na 18 mis ar ôl dyddiad y drwydded).

### Radio cymunedol

Ar hyn o bryd mae naw gorsaf radio cymunedol yng Nghymru – Calon FM, GTFM, Bro Radio, Rhondda Radio, Môn FM, BGfm, Tircoed, Radio Cardiff a Sound. Lansiwyd Bro Radio ym Mro Morgannwg yn ddiweddar ar DAB, gan ymestyn ei ddarpariaeth ar draws Caerdydd a rhan ddwyreiniol Bro Morgannwg.

Hyd yma, mae Ofcom wedi dyfarnu tair trwydded Gwasanaeth Rhaglen Sain Digidol Cymunedol (C-DSP) i wasanaethau yng Nghymru; mae'r rhain wedi'u dylunio i ddarparu llwybr cost isel i wasanaethau cerddoriaeth cymunedol, lleol neu arbenigol ddarlledu ar radio digidol i ardal ddaearyddol fach.

Mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn parhau i gefnogi costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom, ac mae nawr yn croesawu ceisiadau gan wasanaethau C-DSP sy'n darlledu ar amlblecs ar raddfa fach ar ddyddiad eu cais. Yn ystod 2022-23, derbyniodd Bro Radio a Calon FM ddyfarniadau gan y gronfa.

## Argaeledd a darpariaeth gwasanaethau radio

Darperir gwasanaethau radio yng Nghymru gan y BBC a gan y sectorau radio masnachol a chymunedol.

Mae gwasanaethau'r BBC ledled y DU ar gael ledled Cymru ar radio DAB ac analog daearol. Mae'r BBC hefyd yn gweithredu dau wasanaeth ledled Cymru, sef BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, sy'n cael eu darlledu ar FM. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd ar gael drwy DAB ledled Cymru.

Ym mis Mawrth 2023, roedd dwy orsaf fasnachol, 15 gorsaf fasnachol leol a naw gorsaf radio cymunedol yn darlledu ar AM/FM yng Nghymru. Roedd pedwar deg chwech o orsafoedd masnachol yn darlledu ar DAB, heb newid ers y llynedd, ac roedd nifer y gorsafoedd masnachol lleol sy'n darlledu ar DAB wedi cynyddu o 26 i 32.

**Ffigur 20: Nifer y gwasanaethau radio masnachol a chymunedol yng Nghymru, yn ôl technoleg darlledu**

| | AM/FM | DAB |
|---|---|---|
| Masnachol ledled y DU | 2 | 46 |
| Masnachol lleol | 15 | 32 |
| Cymunedol | 9 | Dd/B |

*Ffynhonnell: Ofcom. Sylwch: mae nifer y gwasanaethau ar amlblecsau masnachol a restrir yma yn cynnwys yr holl wasanaethau sy'n cael eu trwyddedu'n fasnachol sy'n cael eu cludo ar bob amlblecs, felly mae'n bosibl y bydd gwasanaeth yn cael ei gyfrif fwy nag unwaith. Nid yw pob gwasanaeth ar gael ym mhob lleoliad. Mae trwyddedau Radio Cymunedol yn drwyddedau analog ond gall deiliaid y trwyddedau hyn hefyd ddal trwydded DSP (rhaglen sain ddigidol) fasnachol i gyd-ddarlledu eu gwasanaeth Radio Cymunedol trwyddedig ar amlblecs DAB. Mae'r data yn y tabl yn ymwneud ag amlblecsau ledled y DU ac amlblecsau lleol yn unig. Mae trwyddedau Cymunedol-DSP (C-DSP) yn caniatáu i wasanaeth radio cymunedol gael ei ddarlledu ar amlblecs DAB dynodedig ar raddfa fach.*

Roedd darpariaeth DAB ledled Cymru wedi aros yr un fath ers 2022, gyda mwy na naw o bob deg cartref (92.2%) yn cael darpariaeth gan wasanaethau DAB y BBC ac wyth o bob deg (82.6%) yn cael darpariaeth gan wasanaethau DAB lleol.

**Ffigur 21: Darpariaeth DAB ym mis Mawrth 2023**

| | | BBC | Masnachol | | | Ar raddfa fach |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Digital One | Sound Digital | DAB Lleol | |
| **Y DU** | Cartrefi | 97.4% | 91.7% | 82.6% | 92.0% | 13.8% |
| | Priffyrdd | 87.4% | 80.2% | 72.6% | 76.8% | NM |
| **Lloegr** | Cartrefi | 98.4% | 94.8% | 86.7% | 93.4% | 12.8% |
| | Priffyrdd | 94.5% | 93.9% | 89.8% | 87.4% | NM |
| **Yr Alban** | Cartrefi | 95.3% | 81.7% | 69.0% | 85.4% | 24.9% |
| | Priffyrdd | 69.1% | 45.5% | 33.6% | 45.6% | NM |
| **Cymru** | Cartrefi | 92.2% | 67.5% | 56.9% | 82.6% | 15.5% |
| | Priffyrdd | 78.1% | 53.3% | 37.7% | 60.9% | NM |
| **Gogledd Iwerddon** | Cartrefi | 87.3% | 85.4% | 56.8% | 87.5% | 5.6% |
| | Priffyrdd | 79.3% | 86.9% | 55.0% | 87.8% | NM |


*Ffynhonnell: Arqiva, BBC, Ofcom. Nodyn: Mesurir y ddarpariaeth SSDAB ar sail cartrefi yn unig. Mae 'NM' yn dynodi nad yw lefelau'n cael eu mesur.*

## Refeniw radio masnachol

### Cynyddodd refeniw radio masnachol y pen yng Nghymru rhwng 2021 a 2022.

Cynyddodd refeniw radio lleol masnachol y pen 7% o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru, er bod hyn yn dal yn is na chyfartaledd y DU, sef £7.18.

**Ffigur 22: Refeniw radio masnachol y pen, yn ôl gwlad: 2022 (£)**




| | Newid o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|
| Y DU | 6% |
| Lloegr | 7% |
| Yr Alban | -2% |
| Cymru | 7% |
| Gogledd Iwerddon | 17% |

*Ffynhonnell: Ofcom, ffurflenni darlledwyr. Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn llwyr â'r trosiant perthnasol a gofnodwyd ar gyfer trwyddedau AL (analog lleol masnachol) ac maent yn cynnwys refeniw lleol a*

*chenedlaethol a nawdd h.y. nid dim ond y refeniw sy'n gysylltiedig â hysbysebion sydd wedi'u hanelu ar gyfer gwlad benodol. Gan nad oedd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2022 ar gael adeg cyhoeddi 2021, mae data poblogaeth canol blwyddyn 2021 wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer 2021 a 2022.*


## Gwrando ar y radio byw yng Nghymru

### Mae gwrando ar y radio yng Nghymru yn fwy crynodedig, gyda llai o bobl yn gwrando am gyfnod hirach, o'i gymharu â Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r DU yn gyffredinol

Mae radio yn parhau i fod yn gryf yng Nghymru, gydag ychydig o dan naw o bob deg oedolyn (87% / 2.3 miliwn) yn gwrando bob wythnos. Er bod cyrhaeddiad wythnosol ychydig yn is (1 pwynt canran) nag ar draws y DU drwyddi draw, mae pobl yng Nghymru yn tueddu i wrando am gyfnod hirach, sef 21 awr 48 munud yr wythnos ar gyfartaledd o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 20 awr 24 munud.

Mae Ffigur 23 yn dangos cyrhaeddiad y gwahanol sectorau darlledu a sut maent yn amrywio yn ôl gwlad. Mae ychydig o dan chwech o bob deg oedolyn yng Nghymru (59.7%) yn gwrando ar orsafoedd y BBC ledled y DU o leiaf unwaith yr wythnos, sy'n uwch nag yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU drwyddi draw. Roedd cyrhaeddiad gorsafoedd lleol/gwledydd y BBC (16.9%) yn cyd-fynd yn fras â'r Alban (19%) a'r DU drwyddi draw (13.2%), ac roedd Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn allanolyn gyda chyfran llawer uwch o bobl yn gwrando ar wasanaethau lleol y BBC.

**Ffigur 23: Cyrhaeddiad wythnosol radio yn ôl sector a gwlad: Ch1 2023**





*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2023; TSA pob radio, TSA BBC Radio Ulster; TSA BBC Radio Scotland; TSA BBC Radio Wales.*

## Radio’r BBC sy’n gyfrifol am y rhan fwyaf o’r gwrando ar y radio yng Nghymru

Mae radio’r BBC yn arbennig o gryf yng Nghymru, gan gyfrif am y rhan fwyaf (56.7%) o gyfanswm y gwrando ar radio o’i gymharu â 46.4% ar draws y DU drwyddi draw. Mae’r rhan fwyaf o’r gwrando hwn ar orsafoedd y BBC ledled y DU. Mae cyfran is o wrandawyr yn gwrando ar orsafoedd masnachol lleol nag yn rhannau eraill y DU (fel sy’n cael ei ddangos yn Ffigur 24).

**Ffigur 24: Cyfran y gwrandawiad radio, yn ôl sector a gwlad: Ch1 2023**





*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2023; Pob radio, TSA BBC Radio Ulster; TSA BBC Radio Scotland; TSA BBC Radio Wales; pwysoliad chwe mis.*

## Mae tua un oedolyn o bob chwech yng Nghymru yn gwrando naill ai ar BBC Radio Wales neu BBC Radio Cymru bob wythnos

Ar ôl gostyngiad yn Ch2 2022, mae ffigurau cynulleidfa BBC Radio Wales wedi dechrau gwella. Mae gan BBC Radio Cymru broffil oedran iau na BBC Radio Wales: Mae 32% (vs 17%) o’i wrandawyr o dan 45 oed. Mae cynulleidfa BBC Cymru hefyd yn fwy tebygol o fod mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch: 66% ABC1 o’i gymharu â 46% ar gyfer BBC Radio Wales. Dim ond 9% o gynulleidfa BBC Radio Cymru sy’n gwrando ar BBC Radio Wales hefyd.

**Ffigur 25: Cyrhaeddiad wythnosol a phroffil cynulleidfa ar gyfer BBC Radio Wales / BBC Radio Cymru, yn ôl oedran**




*Ffynhonnell: RAJAR; BBC Radio Wales TSA. Nodyn: Nid yw BBC Radio Cymru2 wedi'i gynnwys ar RAJAR*

O graffu ar lefel gorsafoedd, gallwn weld bod gorsafoedd radio'r BBC yn boblogaidd ledled Cymru, ond mae'n werth nodi'r amrywiadau bach fesul ardal. Heart, sy'n eiddo i Global, oedd yr unig orsaf fasnachol ledled y DU i ymddangos yn y pump uchaf ledled Cymru yn Ch1 2023, gyda dim gorsafoedd Bauer yn cyrraedd y safleoedd uchaf oherwydd ei bresenoldeb cyfyngedig yng Nghymru. BBC Radio Cymru oedd y bedwaredd orsaf fwyaf poblogaidd yng Ngogledd Cymru, ac yn ne Cymru, BBC Radio Wales oedd yn meddiannu'r safle hwnnw.

**Ffigur 26: Y pum gorsaf uchaf yn ôl ardal ac yn ôl cyfran o'r farchnad: Ch1 2023**

| | Ledled Cymru | | Gogledd Cymru | | De Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Safle | Gorsaf | Cyfran y farchnad % | Gorsaf | Cyfran y farchnad % | Gorsaf | Cyfran y farchnad % |
| 1 | BBC Radio 2 | 20.2 | BBC Radio 2 | 22.3 | BBC Radio 2 | 19.3 |
| 2 | BBC Radio 4 | 11.1 | BBC Radio 4 | 13.2 | BBC Radio 4 | 10.2 |
| 3 | Heart Network (UK) | 8.0 | BBC Radio 1 | 8.0 | Heart Network (UK) | 9.1 |
| 4 | BBC Radio 1 | 7.0 | BBC Radio Cymru | 6.6 | BBC Radio Wales | 6.8 |
| 5 | BBC Radio Wales | 5.6 | Heart Network (UK) | 5.1 | BBC Radio 1 | 6.6 |

| Allwedd | Y BBC ar draws y DU | BBC gwledydd/lleol | Masnachol ledled y DU | Masnachol lleol |
|---|---|---|---|---|


*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2023; TSA BBC Radio Wales; TSA Heart North Wales; TSA Heart South Wales; pwysoliad chwe mis.*

## Mae seinyddion clyfar i gyfrif am 14% o'r gwrandawiad radio yng Nghymru, sydd dair gwaith yn uwch na blwyddyn yn ôl

Mae'r newid graddol i wrando ar-lein yn parhau, gyda seinyddion clyfar, ffonau clyfar a dyfeisiau eraill sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd bellach yn cynrychioli 14.2% o'r holl wrandawiad radio yng Nghymru. Mae dros hanner yr holl wrandawiad radio ar-lein yn digwydd drwy seinyddion clyfar, sydd bron wedi treblu eu cyfran gyffredinol yn y flwyddyn ddiwethaf o 4.4% i 12%. Mae'r ffigur hwn yn uwch ar gyfer y darlledwyr masnachol Global (15.8%), Bauer (24.7%) a News Broadcasting (12.9%), ac yn is ar gyfer y BBC, sy'n 9%.

Yng nghanol y twf hwn mewn gwrando ar-lein, mae DAB a radio analog yn parhau i fod yn gadarn yng Nghymru. Roedd DAB yn cyfrif am dros draean o'r gwrando (35.6%), dim ond 1 pwynt canran yn is nag AM/FM ar 36.5%.

**Ffigur 27: Cyfran y gwrandawiad radio yn ôl llwyfan a grŵp darlledu, Cymru: 2022-2023**




*Ffynhonnell: RAJAR; TSA BBC Radio Wales.*


Nid gwrando ar y radio yw'r unig ffordd y mae pobl yn defnyddio eu seinyddion clyfar. Yn yr adran nesaf rydym yn edrych yn fanylach ar y nifer sy'n defnyddio'r dyfeisiau hyn, yn ogystal â thueddiadau ehangach o ran gwrando ar sain ar-lein.

# Gwrando ar-lein yng Nghymru

## Gwrando ar radio cerddoriaeth oedd y gweithgaredd sain wythnosol mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac yna ffrydio cerddoriaeth

Gan edrych yn fwy eang ar bob math o sain ar draws dyfeisiau, gwasanaethau cerddoriaeth ar-lein (fel Spotify, Apple ac Amazon) yw'r ail fformat sain mwyaf poblogaidd ar ôl gwrando ar radio cerddoriaeth. Mae ychydig dros ddwy ran o dair o oedolion yng Nghymru yn gwrando ar radio cerddoriaeth (69%) ac mae bron i chwech o bob deg (57%) yn gwrando ar wasanaeth cerddoriaeth ar-lein o leiaf unwaith yr wythnos. Er bod rhai amrywiadau bach, nid oes gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol o ran gwrando ar sain wythnosol yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn gyffredinol.

**Ffigur 28: Cyrhaeddiad wythnosol gweithgareddau sain: oedolion 15 oed a hŷn yn y DU a Chymru: 2023**





*Ffynhonnell: Arolwg Sain Ofcom 2023. Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwrando ar unrhyw un o'r canlynol? Sail: Pob oedolyn a ymatebodd 2259 (y DU) 107 (Cymru) NET: Wythnosol*

## Mae Spotify Premium hanner mor boblogaidd yng Nghymru ag ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol, sy'n cyfrif am ychydig o dan draean o'r amser sy'n cael ei dreulio'n ffrydio cerddoriaeth

Gan ganolbwyntio ar ffrydio cerddoriaeth, roedd cerddoriaeth Amazon yn cyfrif am ychydig o dan chwarter (24%) yr amser a dreuliwyd yn ffrydio cerddoriaeth; bedair gwaith cymaint â'r cyfartaledd ar gyfer oedolion ym Mhrydain Fawr. Roedd Spotify Premium hefyd yn boblogaidd yng Nghymru ond roedd yn cyfrif am lai na thraean o'r amser a dreuliwyd yn ffrydio cerddoriaeth (31%) o'i gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr, sef 61%.

**Ffigur 29: Cyfran yr amser sy'n cael ei dreulio'n ffrydio cerddoriaeth yn ôl llwyfan: Oedolion 15 oed a hŷn yng Nghymru o'i gymharu â Phrydain Fawr: 2023**





*Ffynhonnell: IPA TouchPoints ton 1 2023 (Ionawr-Ebrill)*

## Mae mwy o bobl yn gwrando ar bodlediadau, ond mae llai nag un o bob pum oedolyn yn gwrando bob wythnos

Mae podlediadau'n araf, ond yn bendant, yn dod yn rhan o'r deiet sain cyfartalog, ond roedd llai nag un oedolyn o bob pump (17.9%) yng Nghymru yn gwrando arnynt unwaith yr wythnos yn Ch1 2023. Mae hyn ychydig yn llai na ffigur cyrhaeddiad y DU, sef 19.6%, ond mae'n dal yn fwy na dwbl ffigur 2018 (8.2%) a 3.4 pwynt canran yn uwch na blwyddyn yn ôl.

**Ffigur 30: Cyrhaeddiad wythnosol gwrandawyr podlediadau, yn ôl gwlad: 2018-2023**




*Ffynhonnell: RAJAR; mae llinellau dotiog yn dangos gohirio gwaith maes a newid yn y fethodoleg. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol.*

## Mae gan bedwar cartref o bob deg yng Nghymru seinydd clyfar, ac mae gan dri o bob deg set radio DAB yn y cartref

Mae gan ychydig dros bedwar o bob deg cartref (44%) yng Nghymru seinydd clyfar, yn unol â'r DU drwyddi draw (42%).[16] Amazon Echo yw'r brand mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gydag ychydig dros bedwar o bob pum cartref (84%) sydd â seinyddion clyfar yn berchen ar un, yna Google Home / Google Nest ar 11%.[17] Y lle mwyaf poblogaidd i gael seinydd clyfar yw'r ystafell fyw, gyda dros hanner y perchnogion seinyddion clyfar yn gosod un yno (59%), ac yna'r gegin (45%) a'r ystafell wely (39%).[18]

O'i gymharu â hyn, mae gan ychydig dros dri o bob deg (31%) o gartrefi yng Nghymru radio DAB gartref ac mae gan 46% un yn y car, gyda chyfanswm treiddiad aelwydydd o setiau radio DAB yn 61%.[19] Cyn bo hir, bydd Ofcom yn cyhoeddi canfyddiadau ymchwil meintiol a gomisiynwyd i asesu treiddiad a defnydd radio DAB+ mewn cartrefi a cheir. DAB+ yw'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer darlledu sain digidol ac mae'n fwy effeithlon na DAB safonol.

[16] Traciwr Technoleg Ofcom 2023; Sail: Pob Ymatebydd (sail y DU wedi'i bwysoli: 3997, sail Cymru wedi'i bwysoli: 200)
[17] Traciwr Technoleg Ofcom 2023; Sail: Lle mae seinydd clyfar neu ddangosydd clyfar (sail y DU wedi'i bwysoli: 1679, sail Cymru wedi'i bwysoli: 88)
[18] Traciwr Technoleg Ofcom 2023; Sail: Lle mae seinydd clyfar neu ddangosydd clyfar (sail y DU wedi'i bwysoli: 1679, sail Cymru wedi'i bwysoli: 88)
[19] Traciwr Technoleg Ofcom 2023; Sail: Pob Ymatebydd (sail y DU wedi'i bwysoli: 3997, sail Cymru wedi'i bwysoli: 200)

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon